Ynglŷn ag Arolwg Llais y Dysgwr
Diweddarwyd 26 Hydref 2026

Ynglŷn â'r arolwg

1. Beth yw Arolwg Llais y Dysgwr?

Mae Arolwg Llais y Dysgwr yn arolwg blynyddol newydd a gomisiynwyd gan Medr i gasglu barn a phrofiadau dysgwyr. Ei nod yw darparu adborth cyson ledled Cymru i gynorthwyo'r gwaith o wella ansawdd a helpu i sicrhau bod persbectif dysgwyr wrth wraidd addysg drydyddol.

2. Pam fod Medr yn cyflwyno'r arolwg hwn?

Bydd yr arolwg yn darparu tystiolaeth gadarn a chymharol am brofiadau dysgwyr ledled Cymru. Bydd yn helpu darparwyr, Medr, a'r sector ehangach i nodi cryfderau, deall meysydd i'w gwella, a monitro profiadau dysgwyr dros amser.

Mae Medr yn cydnabod bod gan lawer o ddarparwyr drefniadau llais y dysgwr sydd wedi eu sefydlu ers tro. Nid disodli'r dulliau hyn yw diben yr arolwg hwn ond, yn hytrach, i ddarparu sylfaen dystiolaeth genedlaethol gyson sy'n ein galluogi i ddeall profiadau dysgwyr ar draws y sector trydyddol wrth ategu mecanweithiau adborth lleol.

3. Pa ddarparwyr a ddisgwylir i gymryd rhan?

Disgwylir i bob darparwr addysg bellach, prentisiaethau, a dysgu cymunedol i oedolion gymryd rhan. Bydd yr arolwg hefyd yn cael ei dreialu gyda dosbarthiadau chweched dosbarth yn 2027/2028. Nid yw myfyrwyr addysg uwch o fewn cwmpas yr arolwg hwn, sydd wedi ei gynllunio i ategu'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol presennol ar gyfer myfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn olaf.

4. Sut y datblygwyd yr arolwg?

Datblygwyd yr arolwg drwy ddefnyddio rhaglen ymchwil, profion ac ymgysylltu â dysgwyr, darparwyr a rhanddeiliaid y sector, gan gynnwys Estyn. Mae gennym grŵp llywio â chynrychiolaeth o ddarparwyr a rhanddeiliaid i'n cynghori ar sut i weithredu'r arolwg.

Cyn ei gyflwyno'n genedlaethol, treialodd Medr yr arolwg gydag wyth darparwr a grŵp dysgwyr. Defnyddiwyd adborth gan ddysgwyr a darparwyr i fireinio cynnwys yr arolwg, nodweddion hygyrchedd, trefniadau gweinyddu, a dull adrodd.

Ein nod ni yw datblygu arolwg sy'n berthnasol i wahanol grwpiau dysgwyr wrth ddarparu canlyniadau cyson y gellir eu cymharu ledled Cymru.

5. Pwy sy'n cynnal ac yn ariannu'r arolwg?

Mae Medr wedi comisiynu IFF Research, asiantaeth ymchwil gymdeithasol annibynnol, i reoli'r arolwg, gan gynnwys y gwaith o'i weinyddu, ei ddadansoddi, ac adrodd arno.

Ariennir yr arolwg gan Medr. Nid oes rhaid i ddarparwyr dalu i gymryd rhan yn yr arolwg creiddiau.

6. Sut y mae Arolwg Llais y Dysgwr yn gysylltiedig â'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol?

Nid yw Arolwg Llais y Dysgwr yn disodli nac yn dyblygu'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. Nid yw dysgwyr sy'n gymwys i gwblhau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol o fewn cwmpas Arolwg Llais y Dysgwr. Diben Arolwg Llais y Dysgwr yw rhoi sylw i rai o'r grwpiau o ddysgwyr nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys o dan drefniadau arolwg cenedlaethol.

Cynnwys yr arolwg

7. Pa bynciau y mae'r arolwg yn rhoi sylw iddynt?

Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau am y canlynol:

- Gwybodaeth a ddarperir cyn dechrau
- Cymorth ar gyfer dysgu
- Addysgu, dysgu ac asesu
- Darpariaeth Gymraeg
- Trefniadaeth a rheolaeth
- Llesiant ac iechyd meddwl
- Diogelwch a pharch
- Llais ac adborth y dysgwr
- Cynnydd a'r camau nesaf
- Bodlonrwydd cyffredinol

8. Sut y penderfynodd Medr pa bynciau i'w cynnwys?

Rydym wedi penderfynu y dylai'r arolwg ganolbwyntio ar bynciau a chwestiynau sy'n rhoi cipolwg ar ansawdd profiadau dysgwyr, a ffactorau y gall darparwyr ddylanwadu arnynt neu eu rheoli. Mae hyn yn golygu bod rhai pynciau ehangach ynghylch, er enghraifft, y cyngor neu'r arweiniad a gafodd dysgwyr yn yr ysgol ar opsiynau dysgu yn y dyfodol, eu dyheadau ar gyfer y dyfodol, a'u hiechyd a'u llesiant cyffredinol, y tu allan i'w gwmpas.

Wrth ddylunio'r arolwg, rydym hefyd wedi ceisio gofyn y cwestiynau mewn ffyrdd y bydd dysgwyr yn eu deall, gan gydnabod nad arolwg yw'r offeryn ymchwil mwyaf addas ar gyfer rhai pynciau.

9. Faint o amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r arolwg?

Mae'r arolwg wedi ei gynllunio i gymryd oddeutu 10 munud i'w gwblhau.

10. A all dysgwyr ddarparu sylwadau yn ogystal â sgorau?

Gallant. Bydd cyfleoedd i ddysgwyr roi sylwadau testun agored am yr hyn y maent yn ei hoffi fwyaf am eu darparwr, a'r hyn y maent yn teimlo y gellid ei wella.

11. A allwn ni ychwanegu ein cwestiynau ein hunain at yr arolwg?

Mae Medr yn cydnabod bod darparwyr eisoes yn casglu adborth gan ddysgwyr, ac mae angen i Arolwg Llais y Dysgwr ategu trefniadau presennol, yn hytrach na'u dyblygu.

Ar gyfer blwyddyn gyntaf yr arolwg, rydym yn canolbwyntio ar sefydlu'r prif arolwg gan ddefnyddio casgliad o gwestiynau safonol, fel y gellir meincnodi'r canlyniadau ledled Cymru ac, yn y pen draw, eu cymharu dros amser.

Yn y blynyddoedd sydd i ddod, mae Medr yn bwriadu cyflwyno mwy o hyblygrwydd. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys opsiynau ar gyfer y canlynol:

- Cwestiynau ychwanegol wedi eu dewis o fanc cwestiynau y cytunwyd arno'n genedlaethol
- Opsiynau i gysylltu arolwg Medr ag arolwg dysgwyr sydd gan ddarparwyr eisoes
- Cyfleoedd i ddarparwyr ychwanegu cwestiynau pwrpasol, am gost y cytunir arni

Bydd rhagor o wybodaeth am y datblygiadau hyn yn cael ei chynnwys yng nghanllawiau'r arolygon yn y dyfodol.

Hygyrchedd a diwyg yr arolwg

12. Pa fersiynau o'r arolwg sydd ar gael?

Mae'r arolwg wedi ei gynllunio i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Mae'r fersiynau sydd ar gael yn cynnwys y canlynol:

- Fersiynau Cymraeg a Saesneg
- Tri dewis iaith ychwanegol, i'w cadarnhau ar ôl ymgynghori â'r darparwyr
- Fersiynau wedi eu teilwra ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau, a dysgwyr dysgu cymunedol i oedolion
- Fersiwn hawdd ei deall ar gyfer dysgwyr a allai elwa ar iaith a diwyg symlach
- Fersiynau papur pan nad yw'n ymarferol i'w gwblhau ar-lein

Dylai darparwyr annog dysgwyr i gwblhau'r fersiwn sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

13. Pa ddysgwyr ddylai gwblhau'r fersiwn hawdd ei deall?

Mae'r fersiwn hawdd ei deall wedi ei bwriadu ar gyfer dysgwyr a allai gael trafferth cael mynediad at yr arolwg safonol, gan gynnwys rhai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, lefelau llythrennedd is, neu lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Dylai darparwyr ddefnyddio eu gwybodaeth am ddysgwyr unigol i'w helpu i ddewis y fersiwn fwyaf priodol. Ni ddylai fod yn ofynnol i ddysgwyr gwblhau'r fersiwn hawdd ei deall os byddai'n well ganddynt gwblhau'r arolwg safonol.

Cyfrifoldebau'r darparwr

14. Beth a ddisgwylir gan ddarparwyr?

Disgwylir i ddarparwyr wneud y canlynol:

- Hyrwyddo'r arolwg i ddysgwyr
- Dosbarthu'r ddolen ar gyfer yr arolwg i ddysgwyr cymwys
- Annog cyfranogiad
- Cynorthwyo dysgwyr y mae angen cymorth arnynt i gyrchu'r arolwg
- Gweithio tuag at gyflawni cyfradd ymateb gref
- Gwerthuso canlyniadau'r arolwg ac ystyried sut i'w defnyddio i gynorthwyo gwelliant parhaus, fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd cyffredinol.

15. A oes cyfradd ymateb darged?

Oes. Disgwylir i ddarparwyr weithio tuag at gyflawni cyfradd ymateb o 50% o leiaf.

16. Sut y gallwn ni gynyddu cyfranogiad?

Mae'r profiad a gafwyd o gynnal y cynllun peilot yn awgrymu mai un o'r dulliau mwyaf effeithiol yw neilltuo oddeutu 10 munud yn ystod dosbarthiadau, gweithdai neu ymweliadau aseswyr i ddysgwyr fedru cwblhau'r arolwg.

Gall cymorth gan uwch-arweinwyr, cyfathrebu'n glir, ac atgoffa'n rheolaidd hefyd helpu i annog cyfranogiad.

Dylai darparwyr benodi arweinydd arolwg i gydlynu trefniadau lleol, cysylltu ag IFF Research, goruchwylio cyfathrebu, a monitro cyfraddau ymateb gydol cyfnod yr arolwg.

Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r arolwg yn cael y cyfle i ennill gwobr; bydd y manylion wedi eu cynnwys yn y canllawiau i ddarparwyr.

17. Beth ddylem ni ei wneud os oes gennym arolwg dysgwyr ein hunain wedi ei gynllunio i gael ei gyflwyno yn ystod, neu'n agos at, gyfnod arolwg Medr?

Anogir darparwyr i adolygu unrhyw arolygon dysgwyr arfaethedig a allai orgyffwrdd â, neu gael eu cynnal ychydig cyn neu ar ôl, Arolwg Llais y Dysgwr gan Medr.

Gall cynnal nifer o arolygon o fewn cyfnod byr arwain at syrffed ar arolygon, a all leihau cyfraddau cyfranogiad ac ansawdd yr ymatebion. Lle bo modd, dylai darparwyr ystyried addasu amseriad arolygon lleol, neu adolygu a ydyw'r holl weithgarwch arolwg a gynlluniwyd yn angenrheidiol yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd darparwyr eisiau gweld sut y mae'r arolwg cenedlaethol yn gweithio cyn gwneud penderfyniadau ar newidiadau hirdymor i'w gweithgareddau arolwg eu hunain.

Y bwriad gydag Arolwg Llais y Dysgwr gan Medr yw darparu sylfaen dystiolaeth genedlaethol gyson. Efallai y bydd darparwyr yn dymuno defnyddio canlyniadau'r arolwg ochr yn ochr â'u gweithgareddau adborth eu hunain, yn hytrach na dyblygu cwestiynau trwy gynnal arolygon ar wahân ar yr un pryd.

18. A all darparwyr fonitro cyfraddau ymateb yn ystod gwaith maes?

Gallant. Bydd gan ddarparwyr fynediad at ddangosfwrdd byw sy'n dangos cyfraddau ymateb yn ystod cyfnod yr arolwg.

Gweinyddu'r arolwg

19. Pryd fydd yr arolwg llawn cyntaf yn cael ei gynnal?

Mae'r arolwg llawn cyntaf wedi ei drefnu i'w gynnal rhwng **25 Ionawr a 5 Mawrth 2027**. Rydym yn rhagweld y bydd arolygon blynyddol yn y dyfodol yn cael eu cynnal tua'r un adeg yn y flwyddyn.

20. Pa ddysgwyr sy'n gymwys i gymryd rhan?

Mae'r arolwg wedi ei fwriadu ar gyfer pob dysgwr sy'n cymryd rhan weithredol mewn rhaglenni addysg bellach, prentisiaeth, neu ddysgu cymunedol i oedolion yn ystod cyfnod yr arolwg.

21. Beth am ddarpariaeth sydd wedi ei his-gontractio?

Mae contractwyr arweiniol yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr rhaglenni a gaiff eu cyflwyno gan is-gontractwyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan. Bydd canlyniadau a chyfraddau ymateb ar gael ar lefel is-gontractwyr.

22. A fydd yn bosibl gweld canlyniadau'r arolwg ar lefel y cwrs?

Bydd, yn ddibynnol ar ddau ffactor:

- A allwn nodi'n gywir pa gwrs neu raglen y mae'r ymatebydd yn ei astudio, sy'n dibynnu ar ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru manwl gywir a chyfredol, yn ogystal â'r dysgwyr yn mewnbynnu eu prawf adnabod dysgwr yn gywir pan fyddant yn cwblhau'r arolwg
- Nifer yr ymatebwyr; er mwyn diogelu cyfrinachedd dysgwyr a sicrhau adrodd cadarn, dim ond canlyniadau cyrsiau lle mae 10 neu ragor o ddysgwyr wedi cwblhau'r arolwg y byddwn yn eu hadrodd.

Data a chyfrinachedd

23. A fydd ymatebion y dysgwyr yn gyfrinachol?

Byddant. Bydd IFF Research yn ymdrin â'r ymatebion, ac yn eu hadrodd yn unol â gofynion ymchwil a diogelu data. Ni fydd ymatebion dysgwyr unigol yn cael eu rhannu â darparwyr mewn ffordd sy'n datgelu dysgwyr unigol, ac eithrio mewn achosion lle nodir materion diogelu (gweler Cwestiwn 26).

24. Pam y defnyddir rhifau adnabod dysgwyr?

Mae rhifau adnabod dysgwyr yn helpu i gysylltu ymatebion yr arolwg â chofnodion dysgwyr presennol. Mae hyn yn lleihau faint o wybodaeth y mae angen i ddysgwyr ei darparu yn yr arolwg, ac yn gwella ansawdd y gwaith dadansoddi a'r adrodd.

25. Pam fod data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn bwysig?

Mae data LLWR manwl gywir ac amserol yn helpu i sicrhau y gellir dadansoddi canlyniadau arolygon yn ôl nodweddion y dysgwr a'r cwrs, gan gefnogi gwaith adrodd a meincnodi mwy ystyrlon. Dylai darparwyr sicrhau bod eu data LLWR yn fanwl gywir ac yn gyfredol cyn y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd data ym mis Rhagfyr.

26. Beth sy'n digwydd os yw dysgwr yn datgelu mater diogelu yn ei ymateb i'r arolwg?

Ni fwriedir i'r arolwg gael ei ddefnyddio i adrodd pryderon brys, nac i geisio cymorth ar unwaith. Cynghorir dysgwyr yn yr arolwg, os oes ganddynt bryder diogelu neu lesiant uniongyrchol, y dylent siarad yn uniongyrchol â'u darparwr, neu ffynhonnell gymorth ddibynadwy arall.

Bydd IFF Research yn adolygu'r ymatebion testun agored ar gyfer pryderon diogelu. Pan fydd ymateb yn awgrymu y gallai fod risg ddifrifol o niwed i'r dysgwr neu unigolyn arall, bydd gweithdrefnau diogelu sefydledig yn cael eu dilyn, a gellir rhannu'r pryder â darparwr neu'r sefydliad perthnasol fel y gellir ystyried camau gweithredu priodol.

Dylai dysgwyr osgoi cynnwys enwau neu wybodaeth bersonol ddiangen yn eu sylwadau, er y gellir rhannu gwybodaeth, pan fo'i angen, i ymateb i bryder difrifol ynghylch diogelu.

Canlyniadau ac adrodd

27. Pa adroddiadau fydd yn cael eu cynhyrchu a phryd?

Disgwylir i allbynnau gynnwys y canlynol:

- Adroddiadau darparwyr unigol, gan gynnwys dangosfwrdd ar-lein
- Data lefel darparwr, gan gynnwys ymatebion testun agored dienw
- Adroddiad dadansoddi Cymru gyfan
- Adroddiad technegol Cymru gyfan yn egluro sut y cynhaliwyd yr arolwg

Rydym wedi gofyn i IFF Research roi blaenoriaeth i gyflwyno adroddiadau darparwyr, a byddwn yn cydweithio'n agos â nhw i sicrhau bod y cyfnod rhwng gwaith maes yr arolwg a rhannu canlyniadau â darparwyr mor fyr â phosibl. Bydd angen cynnal ychydig o waith dadansoddi cyn rhyddhau canlyniadau darparwyr, gan gynnwys cynhyrchu canfyddiadau cenedlaethol a data meincnodi, er mwyn sicrhau y gellir dehongli canlyniadau darparwyr yn y cyd-destun priodol.

Rydym yn cydnabod y bydd darparwyr eisiau cael adborth cyn gynted â phosibl er mwyn llywio gweithgareddau gwella a, lle bo'n briodol, rhannu'r canlyniadau a chamau gweithredu â'r dysgwyr tra'u bod ar eu cofrestr. Rydym yn rhagweld y bydd darparwyr

wedi cael eu canlyniadau erbyn diwedd mis Mai 2027, a byddwn yn darparu gwybodaeth fanylach am y gwaith adrodd cyn yr arolwg llawn cyntaf.

28. A fydd yn bosibl i ddarparwyr gymharu eu canlyniadau ag eraill?

Bydd. Mae'r arolwg wedi ei gynllunio i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn a all gynorthwyo gwaith meincnodi a chymharu ledled Cymru.

29. Sut fydd Medr yn defnyddio'r canlyniadau?

Bydd Medr yn defnyddio'r canlyniadau i ddeall profiadau dysgwyr yn well ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru.

Bydd y canfyddiadau o gymorth i Medr wneud y canlynol:

- Nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ledled y sector
- Deall profiadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr
- Llywio datblygiad polisi a chynllunio strategol
- Monitro tueddiadau dros amser
- Annog gwelliant drwy rannu arferion effeithiol

Bwriad yr arolwg yw cefnogi gwelliant yn hytrach na chreu tablau cynghrair. Bydd Arolwg Llais y Dysgwr ymhlith nifer o ffynonellau tystiolaeth y bydd Medr yn eu defnyddio i ddeall profiadau dysgwyr ac ansawdd ar draws y sector trydyddol. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth a dangosyddion eraill, ac ni fyddant yn cael eu defnyddio ar eu pen eu hunain wrth lunio barn am ansawdd. Byddwn hefyd yn rhannu canlyniadau'r arolwg ag Estyn i lywio arolygiadau.

30. A fydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi?

Mae Medr yn bwriadu cyhoeddi canfyddiadau'r arolwg yn genedlaethol o'r flwyddyn gyntaf ymlaen.

Bydd darparwyr yn cael eu canlyniadau eu hunain, na fydd yn cael eu cyhoeddi yn syth. Rydym yn rhagweld y bydd canlyniadau'r arolwg ar lefel y darparwr yn cael eu cyhoeddi fel rhan o gyfres gyffredinol o fesurau perfformiad ansawdd gan Medr, ond nid hyd nes y bydd yr arolwg wedi ei sefydlu. Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn dechrau cyhoeddi canlyniadau darparwyr cyn 2029.

Bydd unrhyw ganlyniadau a gyhoeddir yn destun rheolaethau sicrhau ansawdd a datgelu priodol er mwyn diogelu cyfrinachedd y dysgwyr.

31. Sut y gellir defnyddio'r canlyniadau?

Gall y canlyniadau gynorthwyo'r canlynol:

- Hunanwerthuso
- Cynllunio gwelliannau i safonau
- Gweithgareddau ymgysylltu dysgwyr
- Deall profiadau gwahanol grwpiau o ddysgwyr
- Monitro newidiadau dros amser

Cymorth a gwybodaeth bellach

32. Pa gymorth y bydd darparwyr yn ei chael?

Bydd darparwyr yn cael y cymorth canlynol:

- Canllawiau arolwg manwl
- Mynediad i weminarau
- Deunyddiau hyrwyddo a thempledi
- Cymorth parhaus gan dîm IFF Research trwy ddesg gymorth bwrpasol

33. Â phwy y dylai darparwyr gysylltu os bydd cwestiwn?

Dylid anfon cwestiynau am weinyddiaeth yr arolwg i lvsqueries@iffresearch.com .

Gall darparwyr hefyd gysylltu â YmgysylltuDysgwyr@medr.cymru gydag ymholiadau sy'n ymwneud â pholisi.